- mae arweinwyr y Cyngor wedi chwarae rhan weithredol yn y broses o lywio'r buddsoddiad yn y cyfleusterau hamdden.
- mae'r Cyngor wedi gweithio gyda grwpiau cymunedol i gyflawni'r adolygiad hamdden.
- mae'r Cyngor yn casglu adborth gan ddinasyddion mewn ystod eang o ffyrdd, megis arolygon, cyfarfodydd wyneb yn wyneb, a sianeli'r cyfryngau cymdeithasol.
- mae'r Gwasanaeth Hamdden yn defnyddio ap i gasglu adborth mewn amser real gan ddefnyddwyr gwasanaethau ar ansawdd ei arlwy. Mae'r dull hwn o gynnwys pobl yn galluogi'r Cyngor i ymateb yn brydlon i awgrymiadau.
- mae'r Gwasanaeth Hamdden yn cael adborth gwerthfawr gan ei gyflogeion ei hunain ynglŷn â sut i wella'r arlwy ar gyfer dinasyddion. Mae nifer o aelodau o staff yn ddefnyddwyr gwasanaethau hefyd.

29 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- byddai'r Gwasanaeth Hamdden, wrth newid i ganolbwyntio'n fwy ar gwsmeriaid, yn hoffi cyflymu'r broses ar gyfer recriwtio staff newydd i allu ymateb i alwadau ei sylfaen gwsmeriaid.
- dylai'r Cyngor geisio cynnwys dinasyddion yn gynnar yn y broses o lunio gwasanaethau yn y dyfodol trwy ofyn cwestiynau agored ('Beth hoffech chi ei gael gan Wasanaeth Hamdden?'). Byddai hyn yn helpu i oleuo'r broses o ddiweddaru Strategaeth Hamdden y Cyngor.

# Rhan Dau: Ymateb y Cyngor

30 Yn dilyn cwblhau ein gwaith maes fe gyflwynon ni ein canfyddiadau i'r Cyngor mewn gweithdy ym mis Hydref 2019 yr oedd uwch swyddogion y Cyngor a swyddogion gweithredol o dîm y prosiect yn bresennol ynddo. Yn y gweithdy hwn fe ddechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau.

31 Bydd y Cyngor yn cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio er mwyn iddo'i ystyried, a bydd canfyddiadau ein harchwiliad yn cael eu defnyddio i sicrhau bod y Cyngor a'i wasanaethau'n gweithredu yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan gynnwys yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy wrth ddatblygu a gweithredu ei Gynlluniau Darparu a Blaenoriaethau Gwasanaethau a chynlluniau ar gyfer prosiectau allweddol.

32 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r materion yr ydym wedi'u nodi yn ein canfyddiadau.

